# Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Defnyddwyr

### 4 Gorffennaf 2023 – wedi'i gynnal drwy gyfrwng Teams

## Yn bresennol

| | |
|---|---|
| Sioned Williams (SW) | Aelod o'r Senedd, Cadeirydd |
| Mark Isherwood (MI) | Aelod o'r Senedd |
| Peredur Owen Griffths (POG) | Aelod o'r Senedd |
| Lia Moutseloun (LM) | Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr |
| Rhodri Williams (RW) | Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr |
| Samantha James (SJ) | Dŵr Cymru |
| Lauren Kinsey | Dŵr Cymru |
| Tim Mouncer | WHICH? |
| David Beer | Ffocws ar Drafnidiaeth |
| Ryland Doyle | Swyddfa Mike Hedges AS |
| Catherine Drewett | Yr Awdurdod Safonau Hysbysebu |
| Simon Harris (SH) | Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd – Cynrychiolydd Cymru |
| David Roberts | Safonau Masnach Cymru |
| Nicola Evans | Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Lucien Wise | Gweithiwr Achos ar ran Jenny Rathbone |
| Simon Hatch | Cyfarwyddwr, Cyngor ar Bopeth Cymru |
| Alun Evans (AE) | Cyngor ar Bopeth Cymru |
| Lindsey Kearton (LK) | Cyngor ar Bopeth Cymru |

| | |
|---|---|
| Anwen Jones | Cyngor ar Bopeth Cymru |

**Cyfarfod cyffredinol blynyddol**

Cafodd Sioned Williams AS ei hail-ethol yn Gadeirydd, ar ôl cael ei henwebu gan Peredur Owen Griffths AS a'i heilio gan Mark Isherwood AS.
Cafodd Cyngor ar Bopeth Cymru ei ail-ethol yn ysgrifenyddiaeth yn dilyn enwebiad gan Sioned Williams AS.
Bydd Adroddiad Ariannol y Grŵp Trawsbleidiol yn cael ei ddosbarthu i aelodau'r grŵp, a bydd yn cael ei anfon i'r Senedd ar ôl y cyfarfod.

**Cyflwyniad**

Cyflwynodd **SW** bwnc y cyfarfod, sef tlodi dŵr a'r tariff cymdeithasol sengl.

Cyflwyniad gan Lia Mouselou, Uwch Arweinydd Polisi Cymru – y Cyngor Defnyddwyr Dŵr.

Fel rhan o'r cyflwyniad, cafwyd diweddariad ar waith y Cyngor Defnyddwyr Dŵr, yr heriau presennol sy'n wynebu aelwydydd a heriau'r dyfodol. Dywedodd **LM** fod y Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn galw am weithredu cydgysylltiedig ar fesurau cynhwysfawr ac effeithiol o ran cymorth fforddiadwyedd dŵr. Byddai cyflwyno cynllun cymorth sengl mewn perthynas â dŵr yn un enghraifft o hyn, o bosibl. Mynegodd yr angen i symleiddio'r meini prawf cymhwystra ar gyfer cymorth ar draws lleoliadau a chyfleustodau gwahanol, a'r angen i roi terfyn ar y loteri cod post sy'n gysylltiedig â chymorth.

**Trafodaeth**

Agorodd **LM** y drafodaeth drwy fynegi'r angen i sicrhau bod modd o gydgysylltu cymorth a gwybodaeth am ddŵr a chyfleustodau eraill ar draws y sector. Gofynnodd **SH** a fyddai modd i gwmnïau dŵr sydd wedi nodi defnyddwyr cymwys rannu gwybodaeth â chwmnïau cyfleustodau eraill. Cododd hefyd yr heriau sy'n bodoli o ran nodi defnyddwyr cymwys yn y sector dŵr a rhannu data â chwmnïau cyfleustodau eraill er mwyn sicrhau nad oes gofyn i ddefnyddwyr gyflwyno eu hachos i bob cwmni ym maes cyfleustodau.

Gwnaeth **LM** gydnabod bod y broses o rannu data yn broblem, a'i bod wedi bod yn broblem ar draws treialon amrywiol yn y gorffennol. Cynnig y Cyngor Defnyddwyr Dŵr yw targedu grwpiau tebyg, sef y rhai sydd â'r angen mwyaf. Ychwanegodd **LM** fod y gwaith dadansoddi cychwynnol a wnaed ar y cynnig yn dangos ei fod yn gorgyffwrdd â chwsmeriaid sy'n profi tlodi incwm yn gyffredinol. Galwodd am drafodaeth ar y mater hwn ar draws y sector.

Gwnaeth **SW** ddatgan bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, drwy wahanol gynlluniau, yn gwybod ble mae'r bobl sy'n profi tlodi incwm. Holodd a oedd modd gwneud rhywbeth drwy system a fyddai'n cael ei rhoi ar waith gan Lywodraethau ond na fyddai'n torri'r rhwystrau masnachol sy'n ymwneud â rhannu data.

Cyfeiriodd **SJ** at y pwerau a geir drwy Ddeddf yr economi ddigidol, sy'n caniatáu i gwmnïau cyfleustodau rannu data â'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae Dŵr Cymru wedi dechrau gwneud hynny ar gyfer un o'i dariffau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â chwsmeriaid sy'n cael rhai buddion, drwy rannu tua 2,000 o gofnodion y mis. Ychwanegodd fod y broses o gydymffurfio â GDPR yn flaenoriaeth.

Rhoddodd **SJ** drosolwg manwl o'r cymorth y mae Dŵr Cymru yn ei gynnig, gan gynnwys capio biliau, HelpU – y prif dariff cymdeithasol ar gyfer aelwydydd incwm isel – a WaterSure Cymru.

Cododd **AE** y ffaith bod tensiwn posibl rhwng symud pobl i fesuryddion a rheoli costau. Tynnodd sylw at y cwestiwn ynghylch a oes gwersi wedi'u dysgu o ran cefnogi pobl i fabwysiadu ffyrdd mwy cynaliadwy o dalu am ddŵr a rheoli costau.

Ymatebodd **SJ** drwy nodi bod Dŵr Cymru yn rhoi cyngor i ddefnyddwyr ar sut i leihau eu costau dŵr. Os yw pobl yn anhapus gyda'u mesuryddion, gallant fynd yn ôl i ddefnyddio dulliau anfesuredig.

Awgrymodd **LM** y byddai'n werth archwilio'r cam o newid i fesurydd dŵr, o bosibl, yn enwedig mewn perthynas â phobl sy'n byw mewn aelwydydd un person.

Trafododd **LK** ddangosfwrdd data diweddaraf Cyngor ar Bopeth Cymru.

Linc Saesneg: https://public.fourish.studio/story/1703447/

Linc Cymraeg: https://public.fourish.studio/story/1732769/

Yn sgil cyfyngiadau amser, ni chafwyd trafodaeth ar y cyflwyniad, ond anogodd **LK** yr aelodau a oedd am ofyn cwestiynau i gysylltu drwy e-bost. Cafodd yr adroddiad a ganlyn, 'Households are living on empty - can social tarifs reduce the pressure?' ei drafod yn ystod y cyfarfod.

Awgrymodd **SW** y gallai un o gyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol yn y dyfodol ganolbwyntio ar forgeisi, a nododd fod disgwyl i'r grŵp gael cyfarfod ar faterion band eang gyda Nick Speed o BT yn yr hydref. Diolchodd SW i bawb am fod yn bresennol a daeth â'r cyfarfod i ben.